# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 20 Medi 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, J.Henton, S.Paddison, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, S.Rees, J.Woodman-Ralph a/ac N.Daniel |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.A.Knoyle a/ac C.Phillips |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 16, 20.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cyng J.Henton, Eitem 10 (Cabinet) - Personol, Gwirfoddolwr gyda Chyfeillion Cwmni Haearn Abaty Nedd

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 a 28 Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Ystyriodd yr aelodau’r Adroddiad Blynyddol fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Cytunodd yr Aelodau fod y Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad blynyddol 2022/2023 sy'n atodedig yn Atodiad 1 ac yn ei gymeradwyo i'r cyngor.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Rhagolwg

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn atodiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai pwrpas yr adroddiad yw rhoi darlun manwl o sefyllfa bresennol y cyngor, o ran cyllid a'r cynnydd yn y galw ar wasanaethau'r awdurdod.

Cafodd yr aelodau ddiweddariad gyda'r ffigurau chwyddiant, sy'n adlewyrchu pa mor anwadal yw'r sefyllfa ariannol bresennol ar draws y wlad. Er bod cynllunio ariannol cyfredol yn ystyried ystod o senarios posib, mae'r awdurdod yn gweithio gyda ffigwr setliad o 3.1% ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn yn destun newid.

Amlinellodd y panel yn yr adroddiad, os cytunir arno, y byddai'n gweithredu'n ychwanegol at y mecanweithiau eraill sy'n digwydd. Fe'i defnyddir i helpu i lunio a datblygu polisïau a gwasanaethau'r awdurdod wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd swyddogion oherwydd yr amser cyfyngedig ar ddiwedd y broses o bennu'r gyllideb, a maint y bwlch yn y gyllideb y bydd yr awdurdod yn ei wynebu, mae'n debygol y bydd cynigion lle bydd angen newid polisi neu benderfyniadau gwasanaeth yn cael eu cyflwyno'n gynharach. Bydd hyn yn golygu y bydd gan y pwyllgorau craffu olwg ar gynigion yn gynharach ac y bydd hyn yn caniatáu cyfraniad pan fydd cynigion ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu llunio.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Gorymdeithiau Coffa - Castell-nedd a Phort Talbot

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Holodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r gost ar gyfer y digwyddiadau. Cadarnhaodd swyddogion y rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â chau'r briffordd, ynghyd â rhai costau ar gyfer darparu cymorth cyntaf a threfnu pobl yn y digwyddiad. Wrth symud ymlaen, cadarnhaodd swyddogion y byddai staff yr awdurdod yn derbyn hyfforddiant mewn cynlluniau rheoli traffig a fyddai'n helpu i leihau costau'r digwyddiad yn y dyfodol.

Mynegodd yr aelodau eu pryder bod y cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer y digwyddiadau yn y ddwy dref ac nad oedd cymunedau'r cymoedd wedi'u cynnwys yn yr eitem hon. Gofynnodd yr Aelodau am ystyriaeth ehangach ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion fod y rheswm dros y ffocws ar y ddwy dref yn ymwneud â'r adborth a dderbyniwyd y llynedd pan nad oedd modd cynnal y gorymdeithiau. Roedd cymunedau'r cyn-filwr yn enwedig yn yr ardaloedd hyn yn ofidus oherwydd nad oeddent yn gallu gorymdeithio y llynedd. Nid yw unrhyw ran arall o'r Fwrdeistref wedi cysylltu, ac nid yw'r awdurdod yn ymwybodol o unrhyw orymdaith arall sy'n ei chael hi'n anodd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei bod wedi gofyn am adolygiad o ddigwyddiadau a gwyliau ar draws y fwrdeistref.

Cadarnhawyd y byddai'r costau ar gyfer 2023 yn dod o gronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Strategaethau Diwylliant a Chyrchfannau

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd yn y pecyn agenda a'r strategaethau a ddosbarthwyd o fewn y pecyn atodol.

Ystyriodd yr Aelodau'r strategaeth ddiwylliant mewn perthynas â chwaraeon ac roeddent yn falch o weld bod y strategaeth wedi nodi bod angen comisiynu asesiad angen cyfleusterau chwaraeon. Dylai hyn gynnwys deiliadaeth cyfleusterau chwaraeon a chynaliadwyedd y cyfleusterau hefyd.

Holodd yr Aelodau faint o aelodau staff fyddai eu hangen i gyflawni'r strategaethau, ac a ydynt yn ddibynnol ar gyllid grant. Ar hyn o bryd mae cwpl o aelodau staff yn cael eu cyflogi gan ddefnyddio cyllid grant a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r ddwy strategaeth a gyflwynir. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn ceisio caffael rhagor o gyllid grant.

Roedd swyddogion yn awyddus i amlinellu, er bod y dogfennau'n cael eu harwain gan y cyngor, bod cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar ddull partneriaeth.

Edrychodd yr Aelodau ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gofynnodd i swyddogion ystyried yr hyn a ellid ei wneud i ymgysylltu â'r grŵp oedran nad oedd wedi darparu ymateb. Pwysleisiodd swyddogion bwysigrwydd partneriaeth ddiwylliant i bobl iau wrth symud ymlaen.

Holodd yr aelodau werth yr ymgynghorwyr ac a oeddent yn werth am arian o ran canlyniadau'r adroddiadau. Cymeradwyodd swyddogion waith trylwyr yr ymgynghorwyr mewn perthynas â'r eitem hon.

Codwyd yr Aelodau broblemau o ran trafnidiaeth a'r angen i sicrhau bod y strategaethau'n cysylltu â strategaethau ehangach y cyngor. Roedd swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth yn y strategaethau ac yn gyffredinol ar draws y Fwrdeistref.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

<u>Strategaeth Treftadaeth</u>

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd yn y pecyn agenda a'r strategaeth a ddosbarthwyd o fewn y pecyn atodol.

Nodwyd bod yr eitem hon yn strategaeth ddrafft i'w hawdurdodi ar gyfer ymgynghoriad.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Chwarter 1 - Monitro'r Gyllideb Refeniw

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd yn y pecyn agenda a'r strategaethau a ddosbarthwyd o fewn y pecyn atodol.

Ar dudalen 266, nodir gorwariant rhagamcanol o £2.867 miliwn. Cadarnhawyd mai dyma'r gorwariant a ragwelir ar ôl i £3.5m gael ei dynnu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y cytunwyd arnynt gan y Cabinet/cyngor pan osodwyd y gyllideb yn wreiddiol.

Nid yw effaith dyfarniad cyflog arfaethedig staff llyfrau gwyrdd yr NJC wedi'i gytuno o hyd, felly mae'r ffigurau a gyflwynir yn bwynt safle mewn amser. Gall y gorwariant fod yn destun newid. Mae'r adroddiad yn tybio bod aelodau'n fodlon defnyddio'r gyllideb wrth gefn ar gyfer cyflogau a neilltuwyd i ariannu cost ychwanegol y dyfarniad cyflog.

Bydd unrhyw fesurau arbed costau a chynhyrchu incwm sy'n dod o fewn mesurau a pholisïau presennol yn cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn i geisio lleihau'r gorwariant.

O ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a'r gorwariant yn ystod y flwyddyn, cadarnhawyd bod hyn o ganlyniad i lwybrau newydd, a llwybrau newydd a oedd eisoes yn bodoli ond roedd yn rhaid eu haildendro, a arweiniodd felly at gost ychwanegol. Er mwyn ceisio lliniaru costau yn y dyfodol, roedd swyddogion yn bwriadu ymgysylltu â swyddogion allanol i geisio lleihau costau yn y dyfodol, heb effeithio ar yr hawl i gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Holodd yr Aelodau pa waith oedd yn cael ei wneud o ran y strategaeth llety. Cadarnhaodd y swyddogion fod y gwaith yn cael ei wneud. Mae'r adeiladau y gellir eu hailbwrpasu'n destun trafodaeth gyfredol mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf i benderfynu beth sy'n ofynnol er mwyn iddynt gael eu defnyddio. Yn y cyfamser, mae adeiladau ychwanegol yn cael eu hystyried a sut y gellir eu defnyddio er mwyn lleihau ôl troed carbon y cyngor a chostau gweithredu parhaus. Bydd hyn yn cymryd amser i sicrhau bod y cyngor yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chadw staff sy'n gweithio yn y cyngor.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y tanwariant ar gynllun gostyngiadau treth y cyngor a holwyd beth oedd yn cael ei wneud i hyrwyddo hyn, o ystyried yr argyfwng costau byw parhaus. Yn ogystal, a fu unrhyw effaith o ganlyniad i ehangu'r Gwasanaeth Hawliau Lles. Nid oedd swyddogion yn gallu dweud a oedd y cynnydd wedi cael unrhyw

effaith bendant ar y nifer sy'n derbyn cefnogaeth treth y cyngor. Nodwyd bod nifer y bobl sy'n hawlio cefnogaeth treth y cyngor wedi gostwng ers 2020.

Amlinellodd y Prif Weithredwr rai pwyntiau o ran y gwaith a wnaed mewn ymateb i gefnogaeth Hawliau Lles. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno prydau ysgol am ddim. Yn ogystal, defnyddiwyd rhywfaint o arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar y gwasanaeth olrhain teuluoedd ag incwm isel, sy'n targedu ac yn cynorthwyo pobl nad ydynt o bosib yn cael mynediad i'w hawl i fudd-dal llawn. Dywedodd swyddogion y byddai rhestr o'r cymorth sydd ar gael yn cael ei dosbarthu i aelodau drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

<u>Chwarter 1 - Monitro'r Gyllideb Gyfalaf</u>

Holodd yr Aelodau a yw'r argyfwng costau byw yn effeithio ar gyllidebau cyfalaf ac a roddwyd cyfrif am argyfyngau wrth gefn addas o fewn y cyllidebau. Nodwyd bod cost chwyddiant yn cael effaith ar faint o bethau y gellir eu cyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Mae cost gynyddol benthyca'n cael effaith ar gostau ariannu cyfalaf.

Yn dilyn craffu, cymeradwywyd yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

<u>Chwarter 1 - Dangosyddion Perfformiad - 23/24</u>

Amlinellodd swyddogion y fformat newydd ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth. Mae hyfforddiant ar graffu perfformiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2023.

Cododd yr aelodau y dangosydd mewn perthynas â gwasanaethau cwsmeriaid a'r amser a gymerir i ateb galwadau. Holodd yr Aelodau, gan gyfeirio at yr adolygiad o wasanaethau cwsmeriaid, a oedd dangosydd arall a fyddai'n adlewyrchu perfformiad gwasanaethau cwsmeriaid yn well. Cadarnhaodd swyddogion fod rheolwr y Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi'i benodi a'u bod yn trafod yr adolygiad o'r gwasanaethau cwsmeriaid. Bydd y dangosydd perfformiad yn nodwedd o'r adolygiad ei hun a'r gobaith yw y gellir nodi dangosydd sy'n adlewyrchu'n well ansawdd y gwasanaeth a

ddarparwyd. Cadarnhaodd swyddogion y bydd aelodau etholedig yn rhan o'r adolygiad.

Cododd yr aelodau nifer y staff sy'n gadael yr awdurdod lle mae'r gweithiwr yn dechrau'r broses. Cadarnhaodd swyddogion fod aelodau staff profiadol wedi'u cynnwys yn y ffigyrau hynny. Mae data'n adlewyrchu bod nifer y bobl sy'n recriwtio i'r sefydliad wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac yn gyffredinol mae nifer y dechreuwyr yn fwy na nifer y rheini sy'n gadael. Fodd bynnag, cydnabu mewn rhai rhannau o'r cyngor, mae recriwtio'n parhau i fod yn anodd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion 2022-2023

Er bod yr aelodau'n cydnabod mai'r adborth gan y cyhoedd sydd bwysicaf, holodd yr aelodau a yw'r awdurdod yn nodi pryd mae aelodau unigol yn canmol gwasanaethau. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiadau pan dderbynnir canmoliaeth gan aelodau.

Holodd yr aelodau a oedd dadansoddiad o'r cwynion i wahaniaethu rhwng cwynion am y gwasanaeth a chwynion am staff. Cadarnhaodd swyddogion fod yr wybodaeth hon wedi'i hamlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol Cwynion.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 6. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nododd yr Aelodau'r Flaenraglen Waith.

## 7. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r

paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (eithriedig o dan Baragraff 14)

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**